



CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

ABERTAWA BRO MORGANNWG

**A yw
gwasanaethau'r GIG
yn diwallu
anghenion cleifion
dementia?**

**Yr olygfa ar draws
Bwrdd Iechyd
Prifysgol Abertawe
Bro Morgannwg**

Mawrth 2019

Gwybodaeth am Gyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg (CIC)

Cynnwys

	Tudalen:
Cyflwyniad	2 - 3
Cefndir	3
Beth wnaethom ni	4 - 5
Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym ni	5 - 29
Dysgu o'r hyn a welsom a'r hyn a ddywedodd pobl wrthym	29 - 32
Argymhellion y CIC i wella profiad y claf	32
Cydnabyddiaethau	33
Cysylltwch â ni	33 - 34

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu archebu copi trwy gysylltu â'n swyddfa (gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar dudalen 33 - 34).

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gynhyrchu gan Gyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg (CIC ABM).

CIC ABM yw'r corff gwarchod annibynnol sy'n edrych ar wasanaethau'r GIG ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Rydym yn ceisio annog a galluogi aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan weithredol yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar gyflwyno gofal iechyd ar gyfer eu teuluoedd a'u cymunedau lleol.

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) yn gweithio gyda'r GIG, a chyrrff rheoleiddio er mwyn darparu'r cyswllt hanfodol rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, y rhai sy'n rheoleiddio'r gwasanaeth a'r rhai sy'n ei ddefnyddio. Mae CIC ABM yn cynrychioli "llais y claf".

Mae CIC ABM yn clywed oddi wrth y cyhoedd mewn ystod eang o rwydweithiau cymunedol: trwy gysylltiadau uniongyrchol â chleifion, teuluoedd a gofalwyr a hynny drwy ymholiadau, ein gwasanaeth eirioli cwynion, ymweliadau â gwasanaethau'r GIG, arolygon cyhoeddus ac arolygon cleifion a thrwy nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o brofiadau pobl o ba mor dda y mae gwasanaethau lleol y GIG yn diwallu anghenion pobl sydd wedi derbyn diagnosis o ddementia yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Fe ofynnion ni i bobl am yr hyn oedd yn dda ac yn wael am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn eu meddygfa, eu hysbyty lleol ac yn y gymuned. Gofynnwyd i bobl gynnig awgrymiadau ar sut y gellid gwella gwasanaethau.

Efallai na fydd eu sylwadau a'u barn yn cynrychioli barn pob unigolyn sydd wedi cael mynediad at wasanaethau lleol y GIG. Er gwaethaf hyn, mae'r adroddiad wedi nodi meysydd allweddol lle mae angen gwelliannau mewn gwasanaethau i bobl â dementia.

Derbyniwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion oddi wrth bobl sy'n perthyn i berson â dementia neu sy'n agos i berson â dementia ac yn ymwneud â'u gofal. Gwnaeth pobl sylwadau ar ran y person hwnnw yn ogystal â'u profiad eu hunain o'r gwasanaethau fel person sy'n ymwneud yn agos â'u gofal.

Cefndir

Yn 2018, bwriad CIC ABM oedd edrych ar ba mor dda yr oedd Gwasanaethau lleol y GIG yn diwallu anghenion cleifion â dementia. Datblygodd CIC ABM gysylltiadau â chartrefi gofal lleol a sefydliadau'r trydydd sector er mwyn cyrraedd ystod eang o bobl.

Mae manylion ein canfyddiadau i'w gweld yn yr adran 'Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym ni' ar dudalennau 5 i 29. Rhestrir argymhellion i'r Bwrdd Iechyd wella profiadau pobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia ar dudalen 32 a 33.

Awgrymodd rhai pobl newidiadau bach ond rhai a oedd yn bwysig ac yn ymarferol, gydag eraill yn cynnig gwelliannau mwy a oedd yn effeithio ar draws y system.

Rydym yn credu bod angen gweithredu ar y canfyddiadau yn ein hadroddiad ac y dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i sicrhau cysondeb o safbwynt safonau gwasanaeth.

Beth wnaethom ni

Fe wnaethom ofyn i bobl ar draws ardal ABM ddweud wrthym am eu profiad o wasanaethau lleol y GIG ar gyfer cleifion sydd wedi derbyn diagnosis o ddementia.

Fe wnaethom siarad ag amrediad o bobl er mwyn clywed eu barn:

- Cleifion
- Teulu a ffrindiau'r cleifion
- Gofalwyr (ffurfiol ac anffurfiol)
- Staff a gweithwyr proffesiynol
- Sefydliadau'r trydydd sector

Gwnaethom hefyd siarad â phobl yn:

- Nerbynfeydd Ysbytai
- Cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl
- Côr Atgofion Cerddorol (Dementia-gyfeillgar, Abertawe)
- Llyfrgelloedd
- Canolfannau siopa

Fe wnaethom ofyn i bawb a siaradodd â ni i rannu eu profiad personol neu i wneud sylwadau ar ran person a gafodd ddiagnosis o ddementia ynglŷn â'r gwasanaethau lleol canlynol:

- Gwasanaethau Meddygon Teulu
- Gwasanaethau ysbyty
- Gwasanaethau cymunedol y GIG


Fe wnaethom ofyn iddynt awgrymu unrhyw welliannau y gallai'r Bwrdd Iechyd eu gwneud i wasanaethau'r GIG i wella profiad cleifion.

Er bod profiadau pobl yn wahanol, canfuom fod nifer o themâu cyffredin. Rydym wedi defnyddio'r rhain i strwythuro ein hadroddiad. Mae'r holl gyfeiriadau at bobl wedi'u dileu.

Gwelir sylwadau enghreifftiol yn y blychau testun porffor yn yr adroddiad hwn.

Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym ni

O'r 47 o bobl a siaradodd â ni, roedd 4% yn byw yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, 21% yn ardal Castell-nedd Port Talbot a 75% yn ardal Abertawe. Dangosir y canrannau hyn yn y siart cylch isod.




Fe wnaethom ofyn i bobl a oeddent yn cwblhau'r arolwg fel claf neu ar ran claf - fel aelod o'r teulu, gofalwr¹, ffrind neu fel gweithiwr meddygol proffesiynol.


Siaradodd y mwyafrif o bobl (32%) ar ran eu rhieni, 19% ar ran eu gŵr neu'u gwraig, 13% yn rhoi sylwadau fel gweithiwr proffesiynol, er enghraifft fel gofalwr² neu aelod o staff, 4% yn siarad ar ran eu teidiau a'u neiniau a 4% ar ran ffrind. Ni wnaeth 13 o bobl (28%) ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r graff isod yn dangos nifer y bobl ar gyfer pob categori.

¹ Ni ddatgelwyd i ni a oedd y gofalwr yn ofalwr anffurfiol neu ffurfiol.

² Gweler y sylw uchod (1)




Fe wnaethom hefyd ofyn i bobl ddweud lle'r oedd yr unigolyn a gafodd ddiagnosis o ddementia yn byw.



Mae'r siart cylch yn dangos bod dros hanner y bobl a gafodd ddiagnosis o ddementia yn byw yn eu cartref eu hunain, gyda 30% yn byw mewn lleoliad gofal a 13% yn byw gyda theulu.

Dyweddodd pobl wrthym am wasanaethau'r GIG a dderbyniwyd yn eu meddygfa, yn eu hysbyty lleol ac yn y gymuned.

Roedd y rhan fwyaf o bobl (66%) yn teimlo bod gwasanaethau'r GIG a gawsant 'yn dda, yn dda iawn neu'n ardderchog'. Roedd 30% o bobl yn teimlo bod y gwasanaethau 'yn weddol, yn wael neu'n wael iawn'. Ni chafwyd ymateb gan 2 berson (4%). Mae'r graff ar dudalen 8 yn dangos y dadansoddiad ar gyfer pob categori.



Y profiadau da yn y feddygfa, yr ysbyty ac yn y gymuned

Derbyniwyd ystod o adborth a soniodd nifer o bobl am wasanaethau lleol y GIG yn gyffredinol. Lle y bo'n bosibl, rydym wedi ceisio gwahanu'r sylwadau yn ymwneud â gwasanaethau Meddygon Teulu, gwasanaethau ysbyty a gwasanaethau cymunedol sy'n ymwneud â gofal dementia.

Gwasanaethau Meddyg Teulu

Cynigiodd llawer o bobl sylwadau a oedd yn awgrymu eu bod yn canmol y gwasanaethau a ddarperir gan y Feddygfa ac yn gysylltiedig â'r Feddygfa. Roedd y meysydd o ganmoliaeth yn cynnwys gallu gweld y meddyg pan oedd angen, cael atgyfeiriadau a gwasanaethau cyflym a oedd yn ddefnyddiol ac yn diwallu anghenion unigol cleifion a theuluoedd yn ystod adegau anodd.

'Mynediad da at feddygon, yn y feddygfa ac yn y cartref'

'Roedd y Meddyg Teulu yn wych ac roedd yr atgyfeiriad i Westfa yn gyflym'

'Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan ein meddygfa mewn perthynas â chyflwr fy mam yn rhagorol ac mae hyn yn wir am y Fferyllfa sydd ynghlwm â'r feddygfa'

'Mae'r gwasanaeth Meddyg Teulu yn ardderchog. Maent yn talu cryn dipyn o sylw i anghenion fy mam'

'Mae fy mam yn cael llawer o gefnogaeth gan y feddygfa'

'Roedd ganddo Feddyg Teulu da ac roedd yn ei weld bob tro'

'Roeddem yn teimlo bod ein gwasanaethau Meddyg Teulu yn ddefnyddiol iawn. Roedd yn brofiad caled ond roedd yr help yno pan oedd ei angen arnom'

Clywsom am un enghraifft dda lle'r oedd meddygfa yn 'ddementia-gyfeillgar' yn defnyddio poster i gyflwyno negeseuon allweddol a chymorth.

'Mae yna lawer o gyngor amrywiol ar bosteri yn y feddygfa sy'n ddefnyddiol'

Gwasanaethau Ysbyty:

Roedd pobl yn canmol nifer o'r elfennau sy'n rhan o wasanaethau ysbyty. Rhoddwyd canmoliaeth am safon y gofal a dderbyniwyd, agwedd a chyfathrebu'r staff, ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i gleifion a'u teuluoedd ynghyd â gwasanaethau sy'n diwallu anghenion unigol y claf.

Gofal:

'Roedd gweithiwr cymdeithasol yr ysbyty yn ofalgar, yn ddeallus iawn a chawsom dipyn o gymorth'

'Mynychodd fy mam yr ysbyty am brofion gwaed ac fe'i derbyniwyd i'r ysbyty am ddwy noson. Roedd y gofal meddygol a gafodd yn ardderchog'

'Roedd y gofal ar Ward A yn rhagorol ac roeddent yn ofalgar iawn'

Agwedd a Chyfathrebu'r Staff:

Roedd agwedd y staff wedi creu argraff ar bump o bobl, yn dweud wrthym fod staff yr ysbyty yn hawdd sgwrsio â hwynt, yn gyfeillgar ac yn ddeallus.

'.....Rydw i'n ôl ac ymlaen i wahanol ysbytai drwy'r amser ac rwy'n teimlo ei bod yn llawer gwell yn awr i siarad â derbynnydd os oes angen help arnoch yn ymwneud ag apwyntiadau ac ati Mae derbynnyddion yn gyfeillgar ac yn gwrtais'

'Roedd y cleient wedi cael modrwy briodas wedi'i thynnu, meddygon a nyrsys yn wych ac yn amyneddgar'

Dywedodd pobl wrthym eu bod yn hapus yn gyffredinol gyda'u profiad yn yr ysbyty a gyda'r systemau sydd ar waith i adnabod risgiau.

'Rydym wedi cael profiad gwirioneddol gadarnhaol wrth ddefnyddio gwasanaethau'r ysbyty. Gwybodaeth wych a gwybodaeth gadarnhaol'

'Mae'r profiad yn dda iawn, yn enwedig gyda'r goleuadau traffig sydd yn yr ysbyty'

Roedd dau berson yn canmol Clinigau'r Cof yn ardal ABM yn fawr iawn:

'Clinig y Cof yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn ardderchog'
'Clinig y Cof yn ardderchog'

Fe wnaeth un person argymell bod y Groes Goch yn yr adran Ddamweiniau ac Achosion Brys yn darparu cefnogaeth dda.

'Mae'r Groes Goch yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys yn ddefnyddiol i ofalwyr a chleifion sydd mewn trallod'

Yn y Gymuned

Roedd un person yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y gwasanaethau a ddarparwyd yn y gymuned i gleifion mewn angen.

'Diagnosis cyflym gan nyrsys cymunedol trwy ymgynghorydd yn dilyn cwmp. Peth braf oedd iddynt ddod i'r cartref i wneud profion'

Canolfannau Dydd

Roedd dau berson yn teimlo bod y gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Dydd Westfa yn gefnogol i'w hanghenion.

'Mae Westfa wedi bod o help mawr. Maent wedi darparu llawer o wybodaeth ac wedi darparu cwrs therapi gwybyddol. Maent wedi cefnogi'r gofalwyr ochr yn ochr â'r therapi gwybyddol'

'Y cyfarfod blynyddol yn Westfa yn gymharol gefnogol'

Sylwadau Cyffredinol:

Cafwyd nifer o sylwadau cyffredinol cymysg am wasanaethau'r GIG gan y bobl a holwyd.

Mynediad at Wasanaethau

Dyweddodd dau berson wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau'r GIG yn rhwydd.

'Dim problem cael mynediad at unrhyw wasanaeth sydd ei angen'

'Rwy'n teimlo ei bod yn hawdd cael mynediad at Wasanaethau'r GIG'

Agwedd a Chyfathrebu'r Staff:

Clywsom enghreifftiau da ynghylch staff yn cyfathrebu'n dda ag aelodau'r teulu a gwasanaethau lleol eraill.

'Staff yn cysylltu â'r teulu os oes unrhyw broblemau neu bryderon'

'Mae gan y cartref gofal gysylltiadau da â'r feddygfa a'r nyrsys ardal sy'n ymweld yn rheolaidd'

'Roedd pob rhan o system y GIG yn ardderchog ac yn broffesiynol iawn. Gallech ffonio neu ofyn unrhyw beth yn ymwneud â'm rhieni'

Siaradodd rhai pobl yn gadarnhaol am eu profiad o'r GIG yn gyffredinol, gan wneud sylwadau ar y staff a'r gwasanaethau.

'Ar y cyfan, cefais brofiadau da o'r ddau wasanaeth [Meddyg Teulu ac ysbyty]

'Meddyg Teulu – Da ; GIG – Da'

'Maen nhw'n gwneud gwaith ardderchog'

'Yn hapus gyda'r gwasanaethau'

Y profiadau gwael yn y feddygfa, yr ysbyty ac yn y gymuned

Pan ddywedodd pobl wrthym am brofiad anhapus, gwelwyd nifer o themâu yn amlygu. Fel yn yr adran flaenorol, rydym wedi ceisio gwahanu'r sylwadau am wasanaethau Meddyg Teulu, gwasanaethau ysbyty a gwasanaethau cymunedol sy'n ymwneud â gofal dementia.

Gwasanaethau Meddyg Teulu

Dementia - Cyfnodau cynnar

Roedd tri o bobl yn pryderu am y modd y cawsant eu trin gan eu Meddyg Teulu.

'Meddyg Teulu – y ffordd yr ymdriniwyd â dementia ar y dechrau yn bryder'

'Gallai'r Meddyg Teulu fod yn well – yn fwy rhagweithiol'

'Anaml y bydd Meddygon Teulu yn cynnig apwyntiadau, maent yn aml yn rhagnodi presgripsiynau dros y ffôn'

Mewn un enghraifft, clywsom sut y methodd y Meddyg Teulu â sylwi ar arwyddion o ddementia.

'Methodd y Meddyg Teulu â chydabod bod unrhyw newidiadau yn effeithio'r person. Yn dweud mai, yn ôl pob tebyg, diffyg hylif yn y corff oedd wedi achosi mynd yn anghofus/colli cof - roedd

yn rhaid i mi orfodi apwyntiad i gael ei drefnu trwy Borth Castell-nedd Port Talbot, yn rhinwedd fy swydd, er mwyn cynnal asesiad a chael diagnosis'

Cyfathrebu Gwael

Roedd un aelod o'r teulu yn pryderu am y diffyg cyfathrebu gan ei Feddyg Teulu.

'Nid yw'r Meddyg Teulu byth yn cysylltu â mi. Mae fy mam yn parhau i ofyn i mi pa feddyginiaeth y mae'n ei chymryd ac nid wyf yn gallu dweud wrthi'

Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o Dementia

'Weithiau yn y feddygfa, mae tueddiad i beidio â gwerthuso'r angen i weld rhywun yn gyflymach. Yn aml yn siarad â'r gŵr yn rhy gyflym fel nad yw'n deall yr hyn sy'n cael ei ddweud'

Gwasanaethau Ysbyty

Prinder staff

Sylwodd dau berson ar brinder staff a theimlwyd bod hyn yn effeithio ar ofal cleifion.

'Diffyg staff ar gael ar adegau penodol o'r dydd'

'Gall cyfnodau mewn ysbyty fod yn anodd i gleifion gan nad oes gan staff ar wardiau ddigon o amser i roi gofal unigol hyd yn oed petaent eisiau gwneud'

Wardiau Anaddas

Dywedodd llawer o bobl wrthym eu bod yn poeni nad oedd amgylchedd cyffredinol ward yr ysbyty yn addas i ddiwallu anghenion cleifion a gafodd ddiagnosis o ddementia. Roedd pobl yn teimlo'n bryderus am ddiogelwch cleifion ar y wardiau hyn ac roeddent yn teimlo bod angen iddynt aros gydag aelod o'u teulu am gyn hired â phosibl.

'Roedd y gwasanaethau yn yr ysbyty yn wael - dim darpariaeth ar gyfer cleifion dementia. Rhoddwyd fy ffrind mewn ward agored gyda dynion eraill a byddai'n crwydro tuag at y drws er mwyn dianc! Byddai hefyd yn tynnu ei waelod pyjamas i ffwrdd er difyrrwch claf arall!....'

'Fe welsom nad oedd y ward yn addas ar gyfer y naill riant na'r llall o safbwynt eu dementia neu golli cof... ac unwaith roedd Mam wedi gwella, ni ddarparwyd ar ei chyfer oherwydd byddai'n crwydro'

'..... roedd ar bedair ward wahanol dros gyfnod o fis ac roedd hyn yn ddryslyd iawn iddo. Yn y pen draw, fe es i mewn drwy'r dydd i ofalu amdano'

Dywedodd dau berson wrthym eu bod yn teimlo bod cael wardiau cymysg yn hytrach na wardiau arbenigol yn broblem.

'Y gymysgedd o unigolion ar wardiau'

'Cymysg'

Roedd un person wedi cynhyrfu gydag agwedd y meddyg.

'Nid oedd gan y meddyg sgiliau o ran ymdrin â phobl. Nid yw'n siarad â chi nac ychwaith gyda phrif nyrs y ward'

Cyfathrebu Gwael

Clywsom am un enghraifft lle'r oedd diffyg cyfathrebu gan staff yr ysbyty yn rhwystredig i ferch y claf a oedd yn dioddef o ddementia

'Cafodd fy mam ei hasesu yn Ysbyty Tywysoges Cymru a dywedwyd wrthi fod y canlyniadau'n dangos bod ganddi ddementia. Yna, cafodd apwyntiad gyda meddyg a chael presgripsiwn. Roedd hyn yn 2016. Nid yw fy mam wedi cael unrhyw apwyntiadau pellach na chyswllt gyda'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl ers ei hapwyntiad cychwynol ac mae'n parhau gyda'i meddyginiaeth. Ni fyddai ganddynt unrhyw syniad o sut mae ei dementia wedi datblygu. Naill ai mae hi wedi llithro drwy'r rhwyd neu dyma sut mae cleifion dementia yn cael eu trin'

Gadael yr Ysbyty

Dyweddodd un gofalwr ffurfiol wrthym ei fod yn pryderu am y nifer o gleifion nad oedd yn teimlo'n ddiogel sy'n cael eu hanfon adref.

'Yn aml, rydym yn gweld pobl yn dod yn ôl adref yn teimlo'n fregus iawn'

Clywsom fod teuluoedd am deimlo bod ganddynt fwy o ran yn y broses pan fydd claf yn gadael yr ysbyty.

'Pan fydd rhywun yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty i gartref gofal, mae angen llawer mwy o eglurder i deuluoedd sydd heb fynd drwy'r broses o'r blaen...'

Adnabod cleifion â dementia

Dyweddodd dau berson wrthym eu bod yn pryderu nad oedd unrhyw hysbysiad yn ymwneud â'r cynllun glöyn byw ar nodiadau cleifion – nac uwchben eu gwelyau - i rybuddio staff meddygol ac ysgrifenyddion bod gan claf yn dioddef o ddementia, i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

'Pan oedd fy ngŵr yn glaf yn Singleton, nid oedd glöyn byw ar ei wely i ddangos ei fod yn dioddef o'r cyflwr.

Felly, ni wnaeth neb ei helpu i fwydo'i hunan na mynd i'r toiled. Roedd yn yr ysbyty am 4 wythnos a daeth allan yn baeddu ac yn gwlychu ei hunan ac yn methu â cherdded a bwydo ei hunan; pethau a allai eu gwneud pan aeth i mewn... '

'Yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys ar ôl cwmpo, nid oedd arwydd yn sôn am ddementia y tu allan i'r ciwbicl'

Yn y Gymuned

Prinder staff

'Dim ond gwneud sylw am y Ganolfan Ddydd mae fy mam yn ei mynychu. Maent bob amser yn brin o staff. Nid oes digon o ofalwyr i ofalu am y defnyddwyr gwasanaeth, y rhan fwyaf

ohonynt â dementia’

Gweithgareddau a diflastod

Roedd un person yn poeni am y diffyg gweithgareddau ar gyfer cleifion dementia mewn canolfan ddydd arferol ac effaith hyn ar les cleifion.

‘Mae yna nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n mynychu'r Ganolfan Ddydd yn dioddef o ddementia. Mae fy mam a minnau wedi sylwi nad yw'r bobl annwyl hyn yn cael digon o ysgogiad ac maent yn syrthio i gysgu yn eu cadeiriau oherwydd diffyg gweithgarwch’

Dywedodd dau berson am eu pryderon ynghylch amseroedd aros a'r oedi wrth iddynt ddisgwyl offer yr oeddent ei angen.

‘Arhosiad hir i dderbyn newyddion a chymorth clyw newydd’
‘Mae popeth yn cymryd mor hir’

Cyfathrebu Gwael

Clywsom un enghraifft yn ymwneud â chyfathrebu gwael rhwng staff a achosodd broblemau i gleifion a'u teuluoedd.

‘Yn ddiweddar, cafodd Dad lawdriniaeth blastig ac nid oedd i fod cael y gorchuddion ar ei goesau wedi’u newid. Dywedodd yr uned losgiadau hyn wrth y nyrs ardal. Ffoniais hefyd i’w hatgoffa ond fe wnaethant barhau i wneud hynny. Nid yw'n ymddangos bod negeseuon yn cael eu trosglwyddo’

'Nid yw fy mam wedi cael unrhyw help o gwbl gan y gwasanaethau Iechyd Meddwl. Nid oes unrhyw un wedi ymweld â hi er mwyn gweld a yw'n cofio cymryd ei meddyginiaeth. Yn ffodus, roedd ganddi fi fel merch, sydd wedi gofalu amdani nes iddi gael strôc ym mis Rhagfyr 2017'

Cyllid

Roedd dau berson yn poeni bod cost gofal seibiant yn rhwystr i gleifion fynychu canolfannau dydd, ac yn poeni am y diffyg cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau dementia yn gyffredinol.

'Bydd mwy o Ganolfannau Dydd yn cau oherwydd nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn gallu fforddio mynychu'

'Dim digon o arian wedi'i wario'

Teimlai un person fod y system bresennol yn annheg, gyda rhai pobl yn methu â chael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.

'Mynediad at wasanaethau ar sail meini prawf. Cael gwrthod gwasanaethau oherwydd mân bethau. Pobl ydynt NID robotiaid. Nid yn unig y mae gwrthod yn achosi dirywiad mewn iechyd ond hefyd amddifadedd emosiynol'

Sylwadau Cyffredinol

Cyfathrebu Gwael

'Ers y diagnosis dros 2 flynedd yn ôl, nid oes unrhyw Feddyg Teulu nac unrhyw wasanaethau meddygol eraill wedi trefnu apwyntiad dilynol.

Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o Dementia

Dywedodd llawer o bobl wrthym eu bod yn teimlo bod staff meddygol weithiau ddim yn sensitif i deimladau cleifion â dementia, a'u bod yn aml yn dangos diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion y cleifion hynny.

'Fel teulu rydym yn teimlo'n anghyfforddus iawn pan fydd meddygon a staff yn defnyddio'r gair "dementia" ac "Alzheimer's" o flaen ein mam. Er ei bod yn gwybod am y diagnosis 4 blynedd yn ôl, nid yw'n rhywbeth yr ydym yn ei ddweud o'i blaen oherwydd ei bod eisoes yn dioddef o bryder, iselder ysbryd ac aflonyddwch'

'Cynhaliwyd yr ymweliadau â thŷ fy mam i ddechrau heb i'r gofalwr fod yn bresennol. Fe adawsant nifer fawr o daflenni gwybodaeth ond collodd y claf y rhain a chawsant eu hanghofio'

Cymorth

Roedd un person yn anfodlon â'r diffyg cymorth oedd ar gael i gleifion a'u teuluoedd ar adegau o angen.

'Mae'r cymorth sydd ar gael i bobl â dementia yn frawychus. Rwy'n ofni meddwl beth fydd yn digwydd yn y dyfodol wrth i fwy a mwy o bobl dderbyn diagnosis o'r clefyd hwn'

Dyweddod pobl wrthym eu bod am dderbyn gwybodaeth gywir am ble i fynd am gymorth a chyngor, a'u bod am weld gwasanaethau'n cydweithio i ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnynt.

'.... Mae angen nodi gwybodaeth am bwerau Atwrneiaeth ynghyd â nodi manteision a phrosesau eraill yn glir, gan fod yna lawer o gyngor gwrthgyferbyniol.

'Gwasanaeth sy'n lapio o gwmpas y teulu ar yr adeg hanfodol'

'Wrth i iechyd fy ffrind waethygu ymhellach, doeddwn i ddim yn ymwybodol o'r holl gymorth y gallwn fod wedi'i gael gan y Gwasanaeth Iechyd, yr Awdurdod Lleol ac ati. Mae'n ymddangos nad oes gwasanaeth cysylltiedig ar gyfer pobl sy'n dioddef o ddementia'

Syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau i ddiwallu anghenion cleifion a'r rhai sydd ynghlwm â'u gofal

Cafwyd sylwadau cymysg gan bobl am eu hargymhellion ar gyfer gwella.

Gwasanaethau Meddyg Teulu

Hyblygrwydd

Mae un person am weld gwasanaethau yn eu meddygfa yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion cleifion.

'Mae cael apwyntiad gyda'r meddyg yn dipyn o her. Rwy'n credu y dylai fod blaenoriaeth i bobl fregus'

Gwasanaethau Ysbyty

Hyblygrwydd

Mae dau berson am weld gwasanaethau ysbyty yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion cleifion.

'Wrth ymweld ag adran cleifion allanol Ysbyty Treforys, roedd yn rhaid i fy mam aros 4 awr am apwyntiad. Er bod dealltwriaeth bod pobl sâl iawn yn cael blaenoriaeth, nid yw'n hawdd i glaf sy'n dioddef o ddementia aros yn hir ac mae'n achosi anawsterau a rhwystredigaeth i ofalwyr'

'Mae peidio ag aros mewn manau cyhoeddus yn bwysig iawn'

Rhan y teulu

Clywsom sut y gall amgylchedd ysbytai, gwahanol arferion a phrinder staff beri i berson â dementia deimlo'n agored i niwed, a'u teuluoedd i deimlo'n bryderus am eu diogelwch. Mae teuluoedd am gael bod yn rhan o'r broses yn gynnar er mwyn trafod anghenion y claf.

'Er fy mod yn treulio llawer o amser gyda fy mam ac yn ei gweld hi bron bob dydd, doeddwn i ddim wedi sylweddoli pa mor ddibynnol yr oedd hi ar drefn benodol a hynny mewn

amgylchedd cyfarwydd. Ni chafwyd trafodaeth yn ystod y broses o'i derbyn i'r ysbyty yn ymwneud â'i hanghenion fel rhywun ag Alzheimer's / dementia fasgwlaidd. Byddai trafodaeth neu holiadur wedi fy helpu i asesu sut y byddai hi wedi ymdopi ag arhosiad yn yr ysbyty. Tybiais y byddai nyrs yno drwy'r amser, ond pan oedd angen cymorth ar fy mam, nid oedd unrhyw un yn y coridor nac wrth ddesg y ward. Roedd cofio ble roedd y toiled yn anodd iawn iddi - roedd wedi cynhyrfu ac wedi drysu ac rwy'n credu y byddai wedi crwydro'n a mynd ar goll yn hawdd heb i neb sylwi, yn enwedig gyda'r holl glinigau ar y diwrnod cyntaf. Credaf y dylai rhywun fod wedi awgrymu i mi fy mod yn aros gyda hi drwy'r amser tra bo'r lefelau staffio mor isel'

Dynodwyr dementia

Clywsom sut y gall y 'symbol glöyn byw' helpu staff i adnabod pobl â dementia a rhybuddio staff i roi'r gofal priodol.

'Cyfeirio cleifion dementia pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty - y symbol glöyn byw yn ddefnyddiol iawn. Un ffordd safonol o gyfeirio claf'

'Rwyf wedi gorfod rhoi gwybod i bob adran bod angen iddynt gydlynu â mi oherwydd Alzheimer's mam. Byddai'n llai tebygol y byddai hi'n methu â chadw apwyntiadau pe bai ei holl nodiadau yn nodi'n glir ei phroblemau yn ymwneud â'r cof'

Wardiau dementia-gyfeillgar

Mae nifer o bobl eisiau gweld wardiau 'dementia-gyfeillgar' penodol sy'n diogelu cleifion dementia. Mae sylwadau enghreifftiol yn cynnwys,

'Angen unedau arbenigol sydd ar wahân i'r prif ysbytai. Nid yw'r cymysgedd yn gweithio'

'Yn teimlo bod f'anwylyd yn y ward gyffredinol anghywir. Ddim yn addas i ofal dementia'

Codi Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth

Roedd un person yn teimlo y dylai staff ysbytai dderbyn hyfforddiant yn ymwneud â gofal dementia ar lefel briodol.

'.....staff yn gyffredinol wedi'u haddysgu'n well, e.e. porthorion, staff pelydr-x a derbynyddion (yn benodol ar gyfer dementia)'

Yn y Gymuned

Cost gofal seibiant

Dywedodd nifer o bobl wrthym eu bod yn profi caledi ariannol wrth geisio cael gafael ar wasanaethau, yn enwedig pan fydd mynediad yn aml yn seiliedig ar brawf modd.

'Fi yn unig sy'n gofalu am fy ngŵr, rydw i'n talu i rywun fynd ag ef allan, sy'n £45 + petrol. Roedd hyn yn arfer bod yn rhad ac am ddim (dim ond talu am betrol) ac roedd yn mynd 3 gwaith yr wythnos. Roedd hyn mor fuddiol iddo ac i ansawdd ei fywyd.'

Ni allwn fforddio i dalu am fwy o ddiwrnodau'

'Ffurflen fawr i'w llenwi - yn asesu'r sefyllfa ariannol - byddai tua £30 yr wythnos am 4 awr!! Mi fuaswn yn croesawu unrhyw gymorth gan fod gofalwr yn gyfrifol 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos'

'Mae'r staff yn y ganolfan ddydd yn hyfryd, yn groesawgar ac yn gymwynasgar. Yn anffodus, oherwydd y gost o fynychu'r ganolfan, nid yw llawer o'r defnyddwyr yn mynychu bellach gan nad ydynt yn gallu fforddio mynd yno. Ni ddylai fod yn seiliedig ar brawf modd. Bydd yr holl bobl hyn na allant fforddio mynychu yn cael eu gadael yn eistedd gartref yn edrych ar y 4 wal, y rhan fwyaf ohonynt ddim yn gweld enaid arall am damaid o gwmni - mae'n drist iawn'

Prosiectau a Grwpiau Cymunedol

Mae dau berson am weld mwy yn cael ei wneud yn y gymuned i wella lles cleifion â dementia.

'Mwy o brosiectau yn y gymuned lle mae agweddau emosiynol a diwylliannol yr unigolyn yn bwysig ac yn cael eu meithrin a lle mae pobl yn teimlo bod gan eraill amser i'r roi iddynt. Bydd hyn yn cynyddu lles, swyddogaeth wybyddol a hapusrwydd'

'Byddai'n wych pe bai llawer mwy o wasanaethau am ddim ar gael i gynnig cwmni i'r unigolion hyn, gan ei fod yn aml yn dorcalonnus pan fydd yn rhaid i mi roi'r gorau i'r alwad er mwyn parhau â'r alwad nesaf gan wybod pa mor ofnadwy o unig mae'r

person hwnnw a'i fod ar ei ben ei hun'

Er bod dementia yn fwy cyffredin ymysg pobl hŷn, clywsom gan un person am bwysigrwydd cael grwpiau penodol ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.

'Ailddechrau grŵp i bobl iau sydd wedi cael diagnosis. Daeth y grŵp i ben ym mis Awst 2018 ac ni ddaeth dim yn ei le'

Gofal yn y Cartref

Dywedodd person arall wrthym ei fod am weld cynnydd mewn gofal yn y gymuned, i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi ac i osgoi'r angen i gael eu derbyn i'r ysbyty.

'Mwy o wasanaethau yn y cartref i atal derbyniadau i'r ysbyty os yw'n bosibl ac y gellir llwyddo i wneud hyn'

Cyfathrebu

Mae un person am dderbyn gwasanaeth di-dor a chyson.

'Ffordd haws o gysylltu â gweithwyr cymdeithasol ac ati. Anodd iawn cysylltu â phobl oherwydd eu bod allan o'r swyddfa, oriau rhan-amser ac ati'

Sylwadau Cyffredinol

Lefelau staffio

'Cynyddu'r lefelau staffio'

'Mewn byd delfrydol, mwy o staff'

Clywsom sut y gallai fod angen dull gwahanol er mwyn delio â materion sensitif ac i ddiwallu anghenion cleifion.

'Mae rhai meddygon yn gofyn cwestiynau sy'n anodd iawn i ymateb iddynt, gan y byddai hyn yn achosi i'n mam fod yn gynhyrfus iawn ac yn gwadu pethau a ddywedir. Weithiau mae angen mwy o breifatrwydd i drafod pethau - nid o flaen mam'

Cymorth

Dywedodd un person wrthym ei fod am weld llwybr cymorth a gofal cyson i gleifion.

'Creu llwybr strwythur hir dymor ar gyfer dementia fasgwlaidd'

Mae pobl hefyd eisiau gwybod ble i gael mynediad at ofal a chymorth cynnar (ariannol ac ymarferol) a chysylltu â rhwydweithiau cymorth lleol, gan gynnwys cefnogaeth gan gymheiriaid.

'Gwnewch 'gyfarwyddiadur' clir o'r gwasanaethau sydd ar gael: Sut i gael mynediad atynt. Beth y gallant eu hawlio o ran cymorth. Sut y gellir cael mynediad at bethau wrth i'r clefyd ddatblygu'

'Unwaith y cafodd fy ngŵr ddiagnosis, ni ddywedodd neb wrthyf am unrhyw wasanaethau cymorth, cymorth ariannol, gweithiwr

cymdeithasol ac ati. Felly, roedd angen i'ch Meddyg Teulu neu'ch ysbyty ddweud wrthy'ch ble i fynd - eich cyfeirio er mwyn i chi gael mynediad at gymorth ac ati'

'Cael gwybod am yr hyn sydd ar gael a beth y mae gan yr unigolyn hawl iddo'

'Nid ydym wedi derbyn unrhyw beth. Dim pecyn gofal, dim cyngor, dim cymorth o unrhyw fath. Mae'r trydydd sector yn darparu mwy o help na gwasanaethau'r Ysbyty a'r Meddyg Teulu'

Mae dau berson eisiau gwasanaeth cysylltiedig sy'n eu helpu i gael gafael ar yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt mewn un lle.

'Beth fyddai wedi bod yn bwysig fyddai cael popeth o dan un to - roeddwn i fel petawn yn byw ar y ffôn ac roeddwn i'n gweithio'

'Cael popeth o dan un ymbarél (to) - "Siop un stop"'

Dysgu o'r hyn a welsom a'r hyn a ddywedodd pobl wrthym

Bydd person â dementia yn derbyn gofal gan lawer o wahanol bobl ar draws y GIG a gofal cymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd amrywiaeth o brofiadau pobl.

Rhannodd pobl ystod eang o syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau i bobl sy'n byw gyda dementia. Gall y Bwrdd

Iechyd fwrw ymlaen â rhai o'r awgrymiadau hyn yn annibynnol, tra byddai angen i awgrymiadau eraill gael eu symud ymlaen mewn partneriaeth ag eraill.

Mae ein hadroddiad wedi dangos bod yna amrywiaeth sylweddol ym modlonrwydd pobl ynghylch ansawdd gofal dementia.

Cawsom adborth ardderchog yn ogystal ag adborth gwael iawn.

Yn gyffredinol, roedd pobl yn teimlo nad oedd ward cyffredinol yr ysbyty yn gallu darparu'r gofal gorau yn nhermau gofal dementia.

Clywsom hefyd am yr adegau pan na fodlonwyd safonau gofal sylfaenol. Mae angen gofal rhagweithiol ar gleifion dementia i sicrhau eu bod yn cael eu golchi, eu helpu i fynd i'r toiled, rhoi bwyd a diod iddynt a'u helpu i symud. Mae angen dull sydd yn seiliedig ar dîm, lle mae pobl â'r sgiliau a'r profiad cywir yn gallu cydweithio'n effeithiol i ddarparu gofal cydlynol.

Clywsom hefyd enghreifftiau o sut roedd pobl yn teimlo'n rhwystredig oherwydd diffyg cyfathrebu gan weithwyr meddygol proffesiynol.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod bron pob un o'r ymatebion a gawsom yn cydnabod y rôl hanfodol a chwaraeir gan ofalwyr - ac yn tynnu sylw at yr angen i gynllunio a darparu gofal a chymorth nid yn unig i'r bobl hynny â dementia ond hefyd i'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

I lawer o bobl â dementia, mae gwasanaethau dydd yn ffynhonnell ddelfrydol o gymorth, cyfeillgarwch ac ysgogiad yn ogystal â darparu ychydig oriau o seibiant i'r gofalwr. Rydym yn

pryderu bod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gwasanaeth hwn.

Nodwyd nifer o themâu cyffredin yn y sylwadau a gafwyd gan y bobl fel rhai a oedd yn cyfrannu at eu hanfodlonrwydd.

Meysydd allweddol:

Yn benodol i'r ysbyty:

- Addasu gwasanaethau i ddiwallu anghenion cleifion â dementia
- Yr unigolyn â dementia ddim yn cael ei drin gyda'r urddas a'r parch priodol.
- Amgylchedd ward ysbyty:
 - Wardiau gwasanaeth cymysg / diffyg unedau penodol
 - Diogelwch cleifion - problemau gyda chleifion yn crwydro o gwmpas y wardiau.
- Defnydd anghyson o ddynodwyr dementia, e.e. Cynllun Glöyn Byw
- Diffyg gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, e.e. nid yw cleifion yn cael cymorth i fwyta ac yfed.
- Nid yw teuluoedd a gofalwyr yn cael cymaint o gyfranogiad yn y penderfyniadau ag y dymument.

Yn benodol i Feddygon Teulu:

- Addasu gwasanaethau ar gyfer grwpiau bregus

Yn benodol i'r Gymuned:

- Diffyg cyfle i ryngweithio'n gymdeithasol mewn rhai Canolfannau Dydd
- Diffyg gweithgareddau
- Cynyddu prosiectau a grwpiau cymunedol
- Cefnogi gofal yn y cartref
- Materion ariannol / costau gofal seibiant

Themâu sy'n gyffredin i feddygfeydd Meddygon Teulu, ysbytai a gwasanaethau cymunedol:

- Staff meddygol ddim yn adnabod nac yn deall dementia.
- Cyfathrebu gwael rhwng gwasanaethau a gyda theuluoedd
- Prinder staff
- Amseroedd aros hir
- Diffyg gwybodaeth yn ymwneud â dementia yn y gymuned

Argymhellion y CIC i wella profiad y claf

1. Parhau i ddarparu hyfforddiant i staff perthnasol
2. Parhau i wella'r amgylchedd ac addasu gwasanaethau i fod yn ddementia-gyfeillgar
3. Sicrhau bod y Cynllun Glöyn Byw yn cael ei ddefnyddio'n gyson
4. Gwellu mynediad at gymorth parhaus i bobl â dementia a'u gofalwyr
5. Cyfeirio gofalwyr a chleifion yn gyson at asiantaethau a gwasanaethau cymorth lleol i ofalwyr a darparu gwell

mynediad atynt

6. Darparu llwybr gofal dementia personol o'r cyfnod y mae'r claf yn cael ei dderbyn i'r ysbyty i'r cyfnod y mae'n gadael
7. Gwella diagnosis cynnar ac ymyriadau amserol
8. Parhau i adolygu lefelau staffio i sicrhau diogelwch cleifion
9. Gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau lleol i greu 'Cymunedau sy'n Gefnogol i Dementia' - Cymunedau sydd â'r gallu i roi cymorth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia fel y gallant fwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl

Cydnabyddiaethau

Diolch i'r bobl a gymerodd yr amser i ddweud wrthym am eu profiadau. Hoffem ddiolch hefyd i'r cartrefi nyrsio a'r cartrefi preswyl am ein cefnogi wrth gasglu'r data ac i Gôr Atgofion Cerddorol Red Café a chymdeithas Dementia-gyfeillgar Abertawe am ein galluogi i siarad â phobl yn ystod eu digwyddiadau hwy.

Manylion cyswllt



Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro
Morgannwg
Llawr Cyntaf
Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cimla
Castell-nedd
SA11 3SU



01639 683490



office.abm@waleschc.org.uk



www.communityhealthcouncils.org.uk/ABM



@ABMCHC